***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 194 (Cy.29)

# TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

## Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Chwefror 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Chwefror 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 94(4) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(**1**) ac adran 146 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**2**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Diwygio) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) 2002

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) 2002(**3**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn erthygl 3(1)(a)(i), yn lle "adran 509 o Ddeddf Addysg 1996" rhodder "adrannau 3, 4 a 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008".

---

(**1**) 1985 p.67. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) 2000 p.38. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2002/2023 (Cy.207).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

2 Chwefror 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) 2002 ("Gorchymyn 2002").

Mae Gorchymyn 2002 yn gosod beth sydd yn wasanaeth cymwys at ddibenion adran 94 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 ac adran 146 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Mae'r cyfryw wasanaethau yn gyfranogwyr mewn cynlluniau consesiynau teithio gorfodol. Mae gwasanaeth bws cymwys, mewn amgylchiadau penodedig, yn cynnwys gwasanaeth a ddarperir neu a sicrheir gan awdurdod lleol at ddibenion teithio gan ddysgwyr.

Gosododd adran 509 o Ddeddf Addysg 1996 ("Ddeddf") rwymedigaeth ar awdurdodau addysg lleol yng Nghymru i wneud trefniadau ar gyfer darparu cludiant i hwyluso presenoldeb personau sy'n derbyn addysg mewn ysgolion a sefydliadau penodol eraill. Disodlwyd adran 509 o'r Ddeddf yng Nghymru gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur"). Adrannau 3, 4 a 6 o'r Mesur sydd bellach yn gwneud darpariaeth o ran swyddogaethau awdurdod lleol mewn perthynas â threfniadau teithio i ddysgwyr.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 3(1)(a)(i) o Orchymyn 2002 er mwyn cyfeirio at adrannau 3, 4 a 6 o'r Mesur yn hytrach nag adran 509 o'r Ddeddf.